



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad ar ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 73 ac adran 74 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â safonau a bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Rhif achos: CSG237



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, a thrwy reoleiddio cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Manylion cyswllt

- Ffôn: 0845 6033 221
 - E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Post: Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
-



Cyd-destun deddfwriaethol

Rhan 4 Mesur y Gymraeg

- Mae Rhan 4 Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn 'bersonau perthnasol'. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:

 - cyflenwi gwasanaethau;
 - llunio polisi;
 - gweithredu;
 - hybu;
 - cadw cofnodion.
- Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Ran 4 Mesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy, ynghyd â'r diwrnodau oddi ar bryd y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r safonau hynny neu gydymffurfio â'r safonau hynny mewn modd penodol ('diwrnodau gosod'). Bydd copïau ar wefan y Comisiynydd o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd mewn grym.
- Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol i berson perthnasol mewn grym, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennwyd ynddo.

Rhan 5 Mesur y Gymraeg

- v. Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg yn rhoi swyddogaethau rheoleiddiol statudol i'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall dyletswyddau gynnwys cydymffurfio â safonau'r Gymraeg (fel y nodir uchod), ac hefyd ofyniadau a osodir ar bersonau gan y Comisiynydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.
- vi. Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:
- ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwynion ynghylch ymddygiad personau perthnasol;
 - ymchwilio i amheuan o fethiant gan bersonau perthnasol i gydymffurfio â dyletswyddau, dyfarnu ar ymchwiliadau a llunio adroddiadau ar ymchwiliadau;
 - ystyried a ai i weithredu ymhellach (drwy roi argymhellion neu gyngor) ai peidio os yw ymchwiliad yn canfod na fu methiant i gydymffurfio;
 - cymryd un o'r tri cham isod os yw ymchwiliad yn canfod y bu methiant i gydymffurfio:
 - peidio â gweithredu ymhellach;
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - gosod cosb sifil ar y person perthnasol.
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.
 - gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
 - cydymffurfio â dyletswyddau sy'n deillio o apelau i Dribiwnlys y Gymraeg a cheisiadau am adolygiadau gan y Tribiwnlys;
 - llunio dogfen polisi gorfodi;
 - creu a chynnal cofrestr camau gorfodi.
- vii. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y prosesau statudol gofynnol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.
- viii. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth lawn ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.
-

Cynnwys

1	Cylch gorchwyl	1
2	Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad	3
3	Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad	8

1 Cylch gorchwyl

Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

- 1.1 Penderfynais gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg oherwydd bod amheuaeth gennyf nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) wedi bod yn cydymffurfio â rhai o'r safonau y mae'n ddarostyngedig iddynt. Y safonau dan sylw yw safonau rhif 61, 62 a 63.
- 1.2 Agorais ymchwiliad eang yn rhoi sylw i drefniadau corfforaethol ac adrannol y Cyngor yn gyffredinol wrth iddo fynd rhagddi i arddangos arwyddion. Roedd derbyn nifer o gwynion am wahanol achosion yn sail i amheuaeth nad oedd trefniadau digonol yn eu lle gan y Cyngor i warantu bod y Gymraeg yn derbyn triniaeth briodol ar arwyddion.
- 1.3 Eglurais fy mhenderfyniad wrth y rhai oedd wedi cwyno wrthyf. Er nad wyf wedi ymchwilio i fethiannau unigol a gyflwynwyd drwy gwynion, bu i mi gadarnhau drwy lythyr wrth achwynwyr y byddwn yn ystyried tystiolaeth a gyflwynwyd ganddynt wrth gynnal yr ymchwiliad hwn. Rwyf wedi crynhoi'r wybodaeth yn Atodiad 1.
- 1.4 Yn yr achos hwn rwyf o'r farn bod cynnal ymchwiliad o'm dewis fy hun yn ddull mwy effeithiol o fynd at wraidd unrhyw wendidau allasai fodoli yn nhrefniadau'r Cyngor, neu ddiffygion yn eu hymagwedd at gydymffurfio, na phe byddwn yn ymchwilio i fethiannau un wrth un.
- 1.5 Yn ogystal mae fy mhenderfyniad i weithredu yn y modd hwn yn codi o'm hymrwymiad yn y Polisi Gorfodi i weithredu'n gymesur ac i dargedu fy ngwaith rheoleiddio. Penderfynais fod cynnal un ymchwiliad eang yn ddefnydd mwy effeithlon o'm hadnoddau.
- 1.6 Dim ond amgylchiadau ble mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am osod yr arwydd sy'n destun i'r ymchwiliad hwn. Rwyf wedi cyflwyno bob cwyn a dderbyniais i'r Cyngor er mwyn iddo fod yn ymwybodol o arwyddion oedd wedi bod yn destun cwyn.
- 1.7 Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 3 Hydref 2017.
- 1.8 Rhoddais hysbysiad o gylich gorchwyl terfynol yr ymchwiliad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 13 Hydref 2017. Gellir gweld y cylch gorchwyl terfynol fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Safonau perthnasol

- 1.9 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau isod:

Safon 61

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei

arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i chi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Diwrnod gosod: 30 Mawrth 2016

Safon 62

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu'r un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Diwrnod gosod: 30 Mawrth 2016

Safon 63

Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Diwrnod gosod: 30 Mawrth 2016

2 Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad

Hysbysiad tystiolaeth

- 2.1 Ar 13 Hydref 2017 rhoddais hysbysiad tystiolaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Roedd yr hysbysiad tystiolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu'r dystiolaeth a ganlyn.

Gwybodaeth a dogfennau

Arwyddion parhaol:

1. Faint o arwyddion at y diben o fod yn barhaol yw'r Cyngor wedi adnewyddu neu osod am y tro cyntaf ers 30 Mawrth 2016?
2. A all y Cyngor cadarnhau fod yr arwyddion hyn i gyd yn cydymffurfio â gofynion safonau 61, 62 a 63?
3. Os nad ydynt - esboniwch pam a pha gamau cymerwyd i atal methiannau rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Arwyddion dros dro penodol:

4. Esboniwch eich gweithdrefnau ynghylch cymeradwyo arwydd dros dro penodol - er esiampl ar gyfer digwyddiad penodol neu sefyllfa benodol dros dro.
5. A all y Cyngor cadarnhau fod pob arwydd dros dro penodol sydd wedi ei osod ers 30 Mawrth 2016 yn cydymffurfio â safonau 61, 62 a 63?
6. Os nad oeddynt - esboniwch pam a pha gamau cymerwyd i atal methiannau rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Arwyddion dros dro cyffredinol:

7. Faint o arwyddion dros dro cyffredinol, (megis arwyddion gwaith ffordd, neu arwyddion gall cael ei aildefnyddio) sydd ym mherchen y Cyngor?
8. Ydy'r Cyngor wedi arolygu'r stoc hyn o arwyddion er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion y safonau?
9. Os fu'r arolwg darganfod fod arwyddion nad oeddynt yn cydymffurfio - ydy'r rhain wedi cael ei disodli neu oes cynllun gweithredu mewn lle i gwblhau'r gwaith hwn? (os ie darparwch gopis o'r arolygon neu gynlluniau gweithredu).
10. Esboniwch pa weithdrefnau neu gytundebau sydd mewn lle gydag unrhyw trydydd parti i osod arwyddion ar ran y Cyngor. Darparwch esiamplau o gymalau perthnasol contractau neu gytundebau sydd yn delio a'r mater hwn.

11. Ydy'r cyngor wedi cynnal ymarferiad i wirio cywirdeb ieithyddol arwyddion sydd wedi eu codi cyn i'r safonau ddod i rym? Os ie - pryd cwblhawyd yr arolwg?
12. Os fu'r Cyngor darganfod fod arwyddion a osodwyd cyn y diwrnod gosod yn wallus o ran cywirdeb iaith Gymraeg - pa gamau cymerwyd i ddatrys hyn? Ydy'r gwaith disodli unrhyw arwyddion gwallus wedi'i gwblhau?
13. Darparwch unrhyw ddogfennau perthnasol megis cynllun gweithredu neu dystiolaeth o'r arolwg arwyddion.
14. Darparwch unrhyw bolisiau neu ganllawiau mewnol neu allanol sydd yn ymdrin â chreu, gosod neu wirio arwyddion (gan gynnwys arwyddion parhaol neu dros dro).
15. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i'r Comisiynydd ei hystyried wrth ddyfarnu ar gydymffurfiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.
16. Darparwch gopi o unrhyw bolisi, gweithdrefn, canllaw neu ddogfen arall yr ydych am i'r Comisiynydd ei ystyried wrth ddyfarnu ar gydymffurfiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

- 2.2 Mewn ymateb, derbyniais dystiolaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 12 Rhagfyr 2017 drwy lythyr.

Yn ogystal, darparwyd dolen at dudalen we'r Cyngor

http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/documents/welsh_language_scheme.htm;

- 2.3 Mae'r dudalen yn cynnwys copïau o Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a dogfen 'Cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg' sy'n amlinellu cynlluniau'r Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

- 2.4 Ystyriais yr holl wybodaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth.

Y dystiolaeth a dderbyniwyd

- 2.5 Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, gofynnais nifer o gwestiynau i'r Cyngor. Mewn ymateb, derbyniais dabl oedd yn cynnwys ymatebion a ddarparwyd gan 8 o'i adrannau a rhai o'r is adrannau, sef:

- Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol (TGCh, Galw Wrecsam / Canolfan Gyswllt, Cofrestryddion a Brand a Chyfathrebu)
- Amgylchedd a Chynllunio (Uned Priffyrdd a Chludiant Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cynllunio, Rheoli Adeiladu)

- Addysg (Siop Wybodaeth a Dysgu, ITEC, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Canolfan Fictoria a Chanolfan Ragoriaeth Rhiwabon)
 - Cyllid (Diogelwch Cymunedol)
 - Tai a'r Economi
 - Gofal Cymdeithasol i Blant
 - Gofal Cymdeithasol i Oedolion.
- 2.6 Mewn ymateb i gwestiwn 1 yr Hysbysiad Tystiolaeth mae'r Cyngor yn datgan bod pedwar arwydd parhaol wedi ei osod gan yr adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus, dau yn yr adran 'ITEC' a 20 arwydd gan yr adran Diogelwch Cymunedol.
- 2.7 Mewn ymateb i gwestiwn dau'r Hysbysiad Tystiolaeth mae ymatebion yr adrannau yn cadarnhau fod eu harwyddion yn cydymffurfio â gofynion y safonau perthnasol.
- 2.8 Fodd bynnag, mae'r adran Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi bod canolfan 'Whitegate', o bosib, yn arddangos arwyddion nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau ond gan nodi hefyd bod yr adeilad ar fin cael ei ailwampio. Nodwyd fod gweithgor rheolwyr a staff yn bodoli er mwyn sicrhau bod y ganolfan newydd yn arddangos arwyddion sydd yn cydymffurfio â gofynion y safonau.
- 2.9 Mewn ymateb i gwestiwn tri'r Hysbysiad Tystiolaeth mae rhan helaeth o'r adrannau wedi ymateb bod y cwestiwn yn 'amherthnasol'. Mae'r adran ITEC (sef darparwr sgiliau ac addysg) wedi nodi fod un o'i phosteri yn gosod y testun Saesneg uwchben y testun Cymraeg, a bod y poster hwnnw bellach wedi ei ddiwygio o ganlyniad i'r ymchwiliad hwn.
- 2.10 Mewn ymateb i gwestiwn pedwar yr Hysbysiad Tystiolaeth, mae rhai adrannau wedi nodi fod y cwestiwn yn 'amherthnasol'. Mae nifer o adrannau eraill wedi nodi'r prif gamau sydd angen eu cymryd i osod arwyddion, gan gynnwys sicrhau fod staff yn ymwybodol o ofynion y safonau, yr angen i gydweithio gyda'r adran gyfathrebu a bod angen cymeradwyaeth uwch swyddog cyn y caiff unrhyw arwydd ei osod.
- 2.11 Mae'r Uned Priffyrdd a Chludiant yn nodi fod dyletswydd arno, fel yr Awdurdod Priffyrdd, i sicrhau fod pob arwydd priffordd dros dro sy'n cael ei osod ar briffordd gyhoeddus yn cael ei awdurdodi gan swyddog. Nid yw'r dystiolaeth yn dynodi rôl y swyddog, ond mae'r cyd-destun yn awgrymu mai rhywun sy'n gyflogedig i'r awdurdod sydd dan sylw. Mae gofyniad ar y sawl sydd yn gwneud cais ar gyfer gosod arwydd dros dro i gyflwyno 'rhaglen arwyddion' sy'n cynnwys manylion am wyneb yr arwydd, y testun, maint yr arwydd a manylion am eu gosod.
- 2.12 Mae'r sawl sy'n gwneud y cais i osod arwydd hefyd yn cyflwyno 'cynllun lleoliad' sy'n rhoi manylion i'r Awdurdod am lleoliad yr arwydd arfaethedig. Mae'r Cyngor yn nodi ei fod yn sicrhau bod y ceisydd yn ymwybodol bod rhaid i arwydd fod yn ddwyieithog gyda'r testun Gymraeg uwchben y testun Saesneg. Mae'n nodi na fydd arwyddion arfaethedig nad ydynt yn cynnwys testun dwyieithog yn cael eu cymeradwyo.

- 2.13 Mae'r adran Cynllunio yn datgan *“pan fydd angen caniatâd hysbysebu dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, bydd cais ffurfiol am gydsyniad datganedig i arddangos arwyddion yn cael ei gyflwyno a'i bennu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol”*. Mae'n nodi ei bod yn arddangos hysbysiadau safle mewn perthynas â cheisiadau, a bod testun yr hysbysiadau yn dilyn gofyniad statudol.
- 2.14 Mewn ymateb i gwestiwn pump yr Hysbysiad Tystiolaeth, mae rhai adrannau yn nodi nad ydynt wedi gosod arwydd dros dro at ddiben penodol. Mae adrannau eraill yn nodi fod pob arwydd a osodir yn y cyfnod ers gosod y safon yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol.
- 2.15 Fodd bynnag, mae'r adran Brand Digidol a Chyfathrebu yn nodi fod rhai arwyddion wedi'u codi ers cyflwyno'r safonau nad oeddynt yn cydymffurfio. Mae'r arwyddion hyn wedi'u hailosod a nodwyd fod yr adrannau a oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r arwyddion wedi derbyn cyngor i osgoi diffyg cydymffurfiaeth yn y dyfodol.
- 2.16 Mae'r Uned Priffyrdd a Chludiant yn nodi na allent gadarnhau fod bod arwydd dros dro a osodwyd yn y cyfnod ers gosod y safonau yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Maent yn nodi bod achosion, ac fe fydd achosion yn parhau, lle mae arwyddion dros dro yn cael eu codi o fewn terfynau'r priffyrdd cyhoeddus yn anghyfreithlon. Mae'r Cyngor yn nodi y caiff yr arwyddion hyn eu tynnu lawr ar unwaith gan y Cyngor pan hysbysebir hwy amdanynt neu pan gânt eu hamlygu fel rhan o archwiliadau priffyrdd arferol.
- 2.17 Mae'r adran ITEC yn nodi fod arolwg a gwblhawyd wrth ymateb i'r hysbysiad hwn wedi amlygu nad yw arwyddion dros dro ar ddrysau dosbarthiadau a ddefnyddir wrth iddynt gynnal asesiadau ac arholiadau yn cydymffurfio â gofynion y safonau.
- 2.18 Mewn ymateb i gwestiwn 6 yr Hysbysiad Tystiolaeth mae nifer o'r adrannau yn nodi nad yw'r cwestiwn yn berthnasol gan nad oeddynt wedi darganfod methiannau.
- 2.19 Mae'r adran Uned Priffyrdd a Chludiant yn nodi :
“Nid oes unrhyw ffordd adnabyddadwy y gall yr awdurdod priffyrdd atal pobl rhag codi arwyddion dros dro o fewn terfynau'r priffyrdd cyhoeddus, o ystyried ehangder y rhwydwaith a'r adnoddau sydd ar gael.”
- Mae ymateb yr adran yn nodi y mae'r Cyngor yn tynnu i lawr unrhyw arwyddion nad yw wedi ei awdurdodi, ac nid yw hyn yn gyfyngedig i'w dyletswyddau o dan y safonau ond yn broses safonol i ddelio gydag arwyddion nad ydynt wedi awdurdodi.
- 2.20 Mae'r adran ITEC yn nodi bod yr arwyddion y bu iddynt ddarganfod nad oeddynt yn cydymffurfio yn cael eu cyfieithu ac y byddant yn ddwyieithog yn y dyfodol.
- 2.21 Mae adran Canolfan Ragoriaeth Rhiwabon yn nodi nad oeddynt bob amser yn rhoi'r Gymraeg ar arwyddion am nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg o fewn y grŵp defnyddwyr. Maent yn nodi y bydd pob arwydd newydd yn ddwyieithog.
- 2.22 Mewn ymateb i gwestiwn saith noda'r adrannau nad ydynt yn ymwybodol o'r nifer o arwyddion dros dro cyffredinol (sef arwyddion gellid eu hail ddefnyddio) y maent yn berchen arnynt.

- 2.23 Mae'r adran Uned Priffyrdd a Chludiant yn nodi nad oes ganddi gronfa ddata o asedau ar gyfer arwyddion priffyrdd dros dro na pharhaol.
- 2.24 Mewn ymateb i gwestiwn 8 yr Hysbysiad Tystiolaeth noda'r rhan helaeth o'r adrannau bod y cwestiwn yn amherthnasol.
- 2.25 Noda'r adran Cofrestryddion fodd bynnag ei bod wedi cynnal arolwg ac wedi darganfod dau boster a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Gartref sy'n Saesneg yn unig. Maent yn nodi eu bod bellach wedi cyfieithu'r rhain a bod fersiwn Gymraeg o'r poster nawr yn cael ei arddangos.
- 2.26 Mewn ymateb i gwestiynau naw a deg yr Hysbysiad Tystiolaeth mae'r Cyngor yn nodi fod rhai o'i adrannau o'r farn fod y cwestiwn yn amherthnasol.
- 2.27 Noda'r Uned Priffyrdd a Chludiant bod contractau safonol yn cynnwys cymal sy'n nodi bod rhaid i gontractwyr weithredu a chadw at delerau'r Cynllun Iaith Gymraeg, a'u bod yn gosod gofyniad ar isgontractwyr i gydymffurfio.
- 2.28 Mae'r Uned hon hefyd yn dyfynnu o'r adran 'Gwybodaeth am y Gwaith' a ddarperir i gontractwyr:
- “Bydd yr holl arwyddion a marciau ffordd dros dro a ddarperir gan y Contractwyr yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i gosod uwchben y Saesneg. Bydd arwyddion dwyieithog safonol yn cadw at ffurf a gymeradwyir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd arwyddion ansafonol yn dangos arysgrif Gymraeg a chyfieithiad Saesneg, i'w gymeradwyo gan y Sefydliad sy'n Goruchwyllo”.
- 2.29 Mewn ymateb i gwestiwn 11 yr Hysbysiad Tystiolaeth mae'r adrannau wedi ymateb drwy ddweud un ai fod y cwestiwn yn amherthnasol neu eu bod heb gynnal ymarfer i wirio cywirdeb arwyddion a osodir cyn i'r safonau dod i rym.
- 2.30 Mewn ymateb i gwestiwn 12 yr Hysbysiad Tystiolaeth, mae rhai adrannau wedi nodi bod y cwestiwn yn amherthnasol.
- 2.31 Noda'r Uned Priffyrdd a Chludiant nad oes “adnoddau adnabyddadwy” ar gael i'r Cyngor i ailosod pob arwydd nad yw'n cydymffurfio a osodir cyn y diwrnod gosod.
- 2.32 Mae'r Uned yn nodi bod arwyddion presennol yn cael eu hailosod fel rhan o'r gwaith cynnal a chadw rhestredig neu ymatebol a bod arwyddion newydd yn cael eu dylunio i gyfarfod gofynion safonau 61, 62 a 63.
- 2.33 Ni chyflwynwyd unrhyw ddogfennau yn ymateb i gwestiwn 13 yr Hysbysiad Tystiolaeth.
- 2.34 Mewn ymateb i gwestiwn 14 cyfeiriodd pob adran at dudalen we:
http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/documents/welsh_language_scheme.htm
- 2.35 Mae'r dudalen we hon yn arwain at y ddogfen “Cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg” mae cymal yn nodi:
- “Mae'r holl staff wedi cael gwybod bod rhaid cynhyrchu arwydd newydd a rhai sy'n disodli hen rai yn ddwyieithog, a bod yn rhaid gosod y Gymraeg lle bydd yn cael ei darllen yn gyntaf”.

2.36 Ni chyflwynwyd gwybodaeth bellach mewn ymateb i gwestiynau 15 a 16.

Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd wrth ymgynghori ar yr adroddiad arfaethedig

2.37 Yn dilyn ymgynghoriad ar yr adroddiad arfaethedig yn unol ag adran 85 y Mesur, darparodd y Cyngor y wybodaeth ychwanegol isod, gan gynnwys dogfennau a sgrin luniau o wybodaeth a chyfarwyddiadau ar gyfer staff:

- “Communications toolkit”
- “SAM – beth sydd angen i chi wybod”
- “Policy to promote the use of the Welsh in the workplace”
- “Welsh language standards FAQs for SAM”
- “Welsh - procurement guidelines”
- “Gwybodaeth am SAM”
- “Welsh Cym Friday Bulletin”
- “Safonau'r Gymraeg – Cwestiynau Cyffredin”
- “Polisi hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle”
- “Signs info Arwyddion ar SAM”
- Welsh Language awareness (Power point).

2.38 Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys canllawiau brand y Cyngor sy'n rhoi cyfarwyddiadau i staff ar sut i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg wrth greu deunydd marchnata.

2.39 Nodir nad yw'r ddogfen “SAM - beth sydd angen i chi wybod” yn darparu gwybodaeth am ofynion y safonau sy'n ymwneud ag arddangos arwyddion, er ei fod yn cyfeirio at ofynion rhai o'r safonau eraill sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd megis ateb galwadau ffôn, delio â gohebiaeth ac ati.

2.40 Noda'r Cyngor, er fod methiannau clir wedi eu hamlygu gan yr ymchwiliad, ei fod o'r farn ei fod wedi dangos diwydrwydd dyladwy tuag at gydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol gan fod trwch helaeth yr arwyddion y mae'n ei osod yn cydymffurfio.

3 Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad

Y safonau dan sylw

- 3.1 Mae geiriad y safonau fel yr ymddengys yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel a ganlyn:

Safon 61

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i chi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Diwrnod gosod: 30 Mawrth 2016

Safon 62

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu'r un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Diwrnod gosod: 30 Mawrth 2016

Safon 63

Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Diwrnod gosod: 30 Mawrth 2016

Dehongliadau

- 3.2 Noda Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 29 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (y rheoliadau)

Pan fo safon yn cyfeirio at ddeunydd sydd i'w lunio yn Gymraeg (ac eithrio safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau), 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol) a 76 (gwahoddiad i dendro)), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

(a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);

(b) maint y deunydd;

(c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;

(ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;

(d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd.

Safonau dibynnol

3.3 Mae safonau 61 a 62 yn gyd-ddibynnol ar safon 63.

Gofynion y safonau

Safon 61

- 3.4 Mae safon 61 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor, wrth iddynt osod neu adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn cael ei arddangos yn Gymraeg (boed hynny ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân). Rhaid i'r corff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwyddion dan sylw.
- 3.5 Byddai corff yn 'gosod' arwydd newydd fel arfer pan fydd yn ei roi mewn safle lle na fu arwydd o'r fath o'r blaen. Byddai corff yn 'adnewyddu' arwydd os yw'n gwneud unrhyw newid i'r arwydd hwnnw neu yn rhoi arwydd newydd yn lle'r hen un ar yr un safle.
- 3.6 Nid yw defnydd o'r term 'newydd' yn golygu bod gofynion y safon ond yn berthnasol pan fydd y corff yn cynhyrchu arwydd o'r newydd, ond yn hytrach, mae'r term yn cyfeirio at pan fo corff yn gosod yr arwydd mewn safle neu leoliad newydd. Golyga hynny y byddai gosod arwydd mewn lleoliad newydd yn ei wneud yn arwydd newydd at ddibenion y safonau hyn.
- 3.7 Mewn perthynas ag arwyddion electronig, ystyrir bod arwydd newydd yn cael ei osod bob tro mae testun yn ymddangos o'r newydd ar arwydd electronig.
- 3.8 Mae'r safon hon yn berthnasol i unrhyw arwyddion dros dro a gaiff eu gosod neu'u hadnewyddu. Felly, rhaid i unrhyw arwydd dros dro a gaiff ei osod o'r newydd neu'i adnewyddu cael ei arddangos yn Gymraeg.
- 3.9 Ystyrir bod arwydd dros dro yn cynnwys unrhyw arwydd na fwriedir iddo aros yn barhaol yn y man lle mae'n cael ei osod. Gall enghreifftiau o'r fath gynnwys arwydd a osodir i roi gwybod am waith ffordd, arwydd sy'n rhybuddio am ddamwain, arwydd sy'n rhoi gwybod nad yw peiriant yn gweithio neu arwydd ffordd sy'n cael ei osod i roi cyfarwyddiadau i leoliad digwyddiad a gynhelir am gyfnod penodol.

Safon 62

- 3.10 Mae safon 62 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf ar unrhyw arwyddion newydd a gaiff eu gosod neu arwyddion a gaiff eu hadnewyddu (gan gynnwys arwyddion dros dro).

- 3.11 Rwyf yn cydnabod y gall fod yn fater o ddehongliad a yw testun Cymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf ac y gallai hynny fod o ganlyniad i leoliad neu osgo'r arwydd. Er hynny, byddai testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf fel arfer pe bai'n cael ei osod ar y chwith neu uwchben unrhyw destun Saesneg cyfatebol, a hynny ar sail yr arfer safonol o ddarllen o'r chwith i'r dde ac o frig testun i'w waelod.

Safon 63

- 3.12 Mae safon 63 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod testun Cymraeg ar eu harwyddion (boed y rheiny yn arwyddion a gafodd eu gosod cyn neu ar ôl y diwrnod gosod) yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Gall hynny ymwneud â'r sillafiad, y gystrawen neu'r geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir.

Ystyried cydymffurfiaeth â safonau 61, 62 a 63

- 3.13 Mae'r Cyngor wedi bod o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau yma ers 30 Mawrth 2016. Cyn hynny, roedd cynllun iaith Gymraeg y Cyngor yn ei ymrwymo i arddangos arwyddion dwyieithog.
- 3.14 Rwyf o'r farn fod sicrhau fod y Gymraeg yn weladwy ar draws Cymru yn cyfrannu at gyrraedd amcan y Mesur i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.15 Rwyf hefyd yn nodi fod gan y cyhoedd yng Nghymru ddisgwyliadau rhesymol mai'r defnydd o arwyddion dwyieithog yw'r 'norm' erbyn hyn.
- 3.16 Rwyf wedi derbyn tystiolaeth gan aelodau o'r cyhoedd yn cyfleu amrediad o fethiannau gan gynnwys:
- arwyddion dros dro a osodwyd gan, neu ar ran, y Cyngor, sy'n arddangos testun Saesneg yn unig, a ble nad oedd arwydd ar wahân yn dangos testun cyfatebol Cymraeg
 - arwyddion parhaol a osodwyd gan, neu ar ran, y Cyngor sy'n arddangos testun Saesneg yn unig, a ble nad oedd arwydd ar wahân yn dangos testun cyfatebol Cymraeg
 - arwyddion dros dro sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy osod y testun Cymraeg islaw'r testun Saesneg.
 - arwyddion parhaol sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy osod y testun Cymraeg islaw'r testun Saesneg.
- 3.17 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod yr arwyddion hyn yn rhai sy'n cael eu harddangos gan wahanol adrannau o'r Cyngor, ac mewn gwahanol gyd-destunau, a bod y Cyngor yn gweithredu'n groes i ofynion safon 61 wrth eu harddangos.
- 3.18 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor yn dangos bod adrannau wedi cynnal arolwg o'r arwyddion y maent wedi eu gosod ers diwrnod gosod y safon a bod isadran Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r isadran ITEC wedi nodi fod rhai arwyddion wedi cael eu gosod nad ydynt yn cydymffurfio â safon 61.
- 3.19 Yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor, yn achos arwyddion dros dro a arddangosir, mae isadrannau Brand a Digidol, Priffyrdd a Chludiant, Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac ITEC wedi nodi fod rhai arwyddion wedi cael eu gosod nad ydynt yn cydymffurfio â safon 61.

- 3.20 Mae pob un o'r isadrannau eraill naill ai wedi datgan fod y mater yn un sy'n amherthnasol iddyn nhw neu fod pob arwydd sydd wedi ei osod ers dyddiad gosod y safon yn cydymffurfio â gofynion y safon. Mae'n debyg bod yr isadrannau hynny sydd wedi nodi fod y cwestiwn yn amherthnasol wedi gwneud hynny gan nad ydynt wedi gosod arwyddion ers diwrnod gosod y safon.
- 3.21 Rwyf hefyd wedi derbyn cwynion gan y cyhoedd sy'n honni fod y Cyngor yn gosod arwyddion, gan gynnwys arwyddion dros dro, ble nad y Gymraeg sydd yn y safle ble mae yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Gan amlaf arwyddion yw'r rhain ble mae'r testun Gymraeg wedi ei osod ar yr un arwydd islaw'r testun Saesneg.
- 3.22 Nodaf fod y Cyngor yn cytuno gyda fy nehongliad y dylid gosod y testun Gymraeg uwchlaw neu i'r chwith o'r testun Saesneg yn y cyd-destun hwn er mwyn cydymffurfio â gofynion safon 62.
- 3.23 Mae nifer o'r esiamplau sydd wedi eu rhannu â mi yn arwyddion dros dro sydd wedi eu gosod wrth i waith ffordd gael ei gynnal, ble mae'r testun Cymraeg wedi ei osod o dan y testun Saesneg.
- 3.24 Mae tystiolaeth y Cyngor yn nodi ei fod yn awdurdodi gosod arwyddion ar y Priffyrdd ac nad ydynt yn caniatáu i arwyddion nad ydynt yn cydymffurfio cael eu gosod.
- 3.25 Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson â'r dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno i mi gan achwynwyr. Rwyf o'r farn fod angen i'r Cyngor ystyried sut y mae yn cyfathrebu gofynion safon 62 gyda thrydydd partiön a chontractwyr sydd yn gwneud gwaith ar ei ran er mwyn sicrhau bod y cwmnïau hyn o dan oblygiadau contract i gydymffurfio gyda gofynion safon 62 (ac unrhyw safonau eraill sydd yn berthnasol).
- 3.26 Testun pryder i mi yw bod tystiolaeth yr adran Priffyrdd a Chludiant yn nodi fod contractau cyffredinol sydd wedi eu rhoi i sefydliadau sy'n codi arwyddion ar ran y Cyngor yn cyfeirio at gydymffurfio â gofynion cynllun iaith Gymraeg y Cyngor. Diddymwyd y cynllun iaith Gymraeg ar 30 Medi 2015 pan roddwyd hysbysiad cydymffurfio safonau'r Gymraeg i'r Cyngor.
- 3.27 Mae gofynion safonau'r Gymraeg yn dra gwahanol i ofynion y cynllun iaith Gymraeg. Nid oedd unrhyw ofyniad yn y cynllun iaith Gymraeg i arwyddion arddangos testun Cymraeg fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Er bod yr adran 'Gwybodaeth am y Gwaith' yn y contract yn nodi "Bydd yr holl arwyddion a marciau dwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i gosod uwchben y Saesneg", gall y dryswch arwain at aneglurder ymhlith contractwyr.
- 3.28 Nodaf fod tystiolaeth y Cyngor yn dweud nad oes modd iddynt sicrhau fod pob arwydd a osodir ar y priffyrdd yn cydymffurfio â gofynion y safonau. Rwy'n tybio mai cyfeiriad sydd yma at y ffaith nad yw pob arwydd sy'n cael ei osod ar briffyrdd y Fwrdeistref yn rai sydd wedi cael eu gosod gan, neu ar ran, y Cyngor. Mae gofynion y safon yn glir ar y mater hwn. Dim ond pan mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am osod yr arwydd y mae'r gofynion i gydymffurfio â'r safonau'n berthnasol.
- 3.29 Mae aelodau o'r cyhoedd hefyd wedi cyflwyno cwynion i mi ynghylch arwyddion y mae'r Cyngor wedi eu gosod sydd yn cynnwys testun Cymraeg nad yw yn gywir o ran ystyr a mynegiant fel sydd yn ofynnol yn safon 63.

- 3.30 Nodaf fod y camgymeriadau hyn yn aml yn gamlythreniad neu yn amlygu diffyg defnydd o'r acen grom ar arwyddion parhaol.
- 3.31 Er fy mod yn cydnabod fod camgymeriadau yn gallu digwydd o dro i dro wrth osod testun ar arwydd; mae'n ymddangos ble ceir camgymeriadau ar y fersiynau Gymraeg, nad oes camgymeriadau ar y fersiynau Saesneg.
- 3.32 Nodaf mai wrth arddangos y Gymraeg y gwelir camgymeriadau ar arwyddion, nid y Saesneg. Mae hyn yn awgrymu i mi bod y Cyngor yn arddel safonau ansawdd anghyson wrth drin ieithoedd ar arwyddion, gan drin y Gymraeg yn llai ffafriol.
- 3.33 Rwyf yn ymwybodol bod y Cyngor yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu gan gyngor sir arall, a bod y Cyngor hwnnw'n darparu peth gwasanaeth prawf ddarllen i'r Cyngor wrth iddo ddatblygu testun. Er hynny, nid yw'r Cyngor wedi egluro wrthyf beth yw ei drefniadau ar gyfer sicrhau y caiff testun Cymraeg, sy'n cael ei osod ar arwydd, ei arddangos yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Nid yw wedi dangos i mi fod arweiniad wedi ei roi i staff sy'n comisiynu neu'n creu arwyddion ynghylch y modd y dylid sicrhau a gwirio cywirdeb y testun Cymraeg.
- 3.34 Un o nodweddion y dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno i mi gan y Cyngor yw mai ymatebion unigol yr adrannau sydd wedi ei ddarparu yn hytrach nac ymateb sy'n rhoi safbwynt corfforaethol y Cyngor ar ei gydymffurfiaeth â safonau.
- 3.35 Yn fy hysbysiad tystiolaeth, gofynnais i'r Cyngor gyflwyno i mi wybodaeth ynghylch ei bolisiau a'i ganllawiau sydd at ddefnydd aelodau staff neu bartion sy'n gweithredu ar ei ran ynghylch creu, gosod a gwirio arwyddion. Rhoddais gyfle i'r Cyngor ddarparu unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach y dymunai i mi ei ystyried, a gofynnais am gopiau o weithdrefnau ac unrhyw ddogfennau eraill allai fod o ddefnydd i mi wrth i mi ystyried cydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau.
- 3.36 Mewn ymateb darparodd pob un o adrannau ac isadrannau'r Cyngor ddolen at dudalen sydd wedi ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor dan y pennawd 'Safonau'r Gymraeg'.
- 3.37 Yr hyn a geir ar y dudalen hon yw gwybodaeth am y safonau sydd wedi eu gosod ar y Cyngor, gyda dolen at Hysbysiad Cydymffurfiaeth y Cyngor. Ceir hefyd ddolen at strategaeth y Cyngor ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, dogfen y mae'r Safonau'n ei wneud yn ofynnol iddynt ei chyhoeddi, a dolen at ddogfen sy'n grynodeb o'r hyn mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgymryd â hwy er mwyn cydymffurfio â'r safonau. Ceir dolen hefyd at ddogfen sy'n rhoi darlun o broffil ieithyddol y gogledd ddwyrain.
- 3.38 Mae ansawdd tystiolaeth y Cyngor, gyda'r ymatebion adrannol a'r nifer o sylwadau bod y cwestiynau yn 'amherthnasol' yn fy mhryderu nad oes gafael corfforaethol ar y mater hwn ac nad yw'r Cyngor wedi datblygu ymwybyddiaeth ac arweiniad digonol yn gorfforaethol o bwysigrwydd y safonau fel dyletswyddau statudol.
- 3.39 Nodaf nad yw'r Cyngor wedi darparu tystiolaeth i mi sy'n dangos fod canllawiau clir ac ymarferol ar gyfer staff yn bodoli, sy'n gosod allan beth yw gofynion pob safon a sut mae aelodau staff yn gyfrifol am eu gweithredu. Mae tystiolaeth y Cyngor yn amlygu nad yw pob adran yn gwbl glir am eu cyfrifoldebau, a cheir rhai sylwadau sy'n peri pryder i mi, megis ffaith fod un isadran o'r farn nad oes angen gosod

arwyddion Cymraeg gan “nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg o fewn y grŵp defnyddwyr”.

- 3.40 Nid wyf wedi derbyn tystiolaeth fod y Cyngor wedi cynnal hyfforddiant neu gynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth ei aelodau staff o ofynion y safonau. Er y ceir un frawddeg ar wefan y Cyngor ynghylch hynny, mae'n annhebygol o fod yn ddigonol i sicrhau dealltwriaeth a gwerthfawrogiad lawn o'r gofynion.
- 3.41 Roeddwn yn disgwyl derbyn tystiolaeth o fodolaeth gweithdrefn ysgrifenedig at ddefnydd pob aelod o staff sy'n gosod canllaw i'w ddilyn wrth greu arwydd mewn gwahanol amgylchiadau, ac yn rhoi arweiniad ynghylch derbyn cefnogaeth gorfforaethol, megis gan swyddogion iaith neu wasanaeth cyfieithu. Yn ogystal, dylid bod yn glir beth yw'r gyfundrefn awdurdodi a chofnodi yn gorfforaethol fel bod y Cyngor yn gallu monitro ac adolygu ei berfformiad.
- 3.42 Roeddwn hefyd wedi disgwyl gweld tystiolaeth fod y Cyngor wedi datblygu canllawiau dylunio sy'n egluro beth yw oblygiadau ymarferol gofynion y safonau e.e. beth mae'r cysyniad o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, neu roi'r testun Cymraeg mewn safle fel mai hwnnw sy'n cael ei ddarllen yn gyntaf, yn ei olygu'n ymarferol. Heb arweiniad corfforaethol o'r fath, mae risg parhaol y bydd methiannau yn digwydd ac yn cael eu hailadrodd.
- 3.43 Yn ogystal nid yw'n ymddangos o'r dystiolaeth sydd wedi ei ddarparu i mi fod y Cyngor wedi datblygu proses ddigonol i oruchwylio a gwirio ei ddefnydd o arwyddion. Mae'r gwaith arolygu a wnaethpwyd mewn ymateb i'm cais am dystiolaeth wedi amlygu bod arwyddion nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y safonau wedi eu gosod. Byddai rhaglen gyson o arolygu mewnol o'r fath yn galluogi'r Cyngor i wirio a sicrhau nad yw methiannau'n digwydd, gan roi cyfle iddo addysgu staff ble mae'n canfod fod pethau wedi mynd o'i le.

Ystyriaethau yn dilyn ymgyngoriad ar yr adroddiad arfaethedig

- 3.44 Rwyf yn nodi fod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ymchwiliad hwn a'i fod yn cydnabod methiannau ac yn ymrwymo i wella'r sefyllfa at y dyfodol.
- 3.45 Wrth ymgyngori ar yr adroddiad arfaethedig, rhannodd y Cyngor gopi o ganllawiau brand y Cyngor gyda mi. Nodaf fod peth sylw wedi ei roi yn y ddogfen i ofynion safonau'r Gymraeg ac effaith hynny ar frand y Cyngor. Er hynny credaf y gallai dogfen o'r fath roi cryn dipyn mwy o arweiniad ar beth yw effaith gofynion y safonau ar frand y Cyngor a beth sy'n rhaid ei wneud er mwyn cydymffurfio â safonau.
- 3.46 Nodaf nad yw'r canllawiau desg ar gyfer staff yn rhoi arweiniad ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r safonau wrth greu ac arddangos arwyddion, boed yn arwyddion dros dro neu'n arwyddion parhaol, er bod canllawiau o'r fath yn bodoli sy'n rhoi arweiniad ymarferol wrth gyflenwi rhai gwasanaethau eraill.
- 3.47 Felly, rwyf o'r farn, wrth gydnabod bod rhai canllawiau corfforaethol mewn lle, fod angen i'r Cyngor greu canllawiau ymarferol a chyfundrefn glir ar gyfer dylunio ac arddangos arwyddion yn benodol.
- 3.48 Nodaf sylw'r Cyngor eu bod eisoes wedi cynnal ymgyrch er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o ofynion y safonau. Rwy'n derbyn fod gwaith i godi ymwybyddiaeth wedi ei wneud wrth i'r safonau ddod yn weithredol. Fodd bynnag,

gan fod methiannau yn parhau, rwyf o'r farn fod angen ymgyrchoedd parhaus a dulliau amgen o atgoffa staff o'r gofynion er mwyn lleihau'r risg fod ymwybyddiaeth yn cael ei golli a chydymffurfiaeth yn dirywio gyda threigl amser.

Canfyddiadau

- 3.49 Rwyf o'r farn fod y gyfundrefn safonau yn gofyn fod sefydliadau yn meddu ar weithdrefnau corfforaethol cadarn er mwyn cefnogi ei adrannau a'i wasanaethau i gydymffurfio'n llwyddiannus. Yn absenoldeb trefniadau o'r fath, bydd adrannau a gwasanaethau yn dehongli safonau'n wahanol i'w gilydd. Byddant yn dod i gasgliadau eu hunain ynghylch yr angen i gydymffurfio, ac yn sefydlu ymagwedd adrannol tuag at fethiannau i gydymffurfio a goddefgarwch ohono. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'r risg o gamddehongli gofynion safon, neu o fethu a gweithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â safon yn uchel.
- 3.50 Rwy'n cydnabod fod y Cyngor wedi datblygu rhai canllawiau ac wedi cymryd rhai camau i hyrwyddo gofynion y safonau ymysg staff, fodd bynnag rwyf o'r farn nad yw'r camau sydd wedi eu cymryd yn ddigonol, yn enwedig yng nghyd-destun gosod arwyddion, er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o draweffaith y safonau a'r newid mewn diwylliant sydd ei angen er mwyn cydymffurfio â hwy.
- 3.51 Rhaid cael arweiniad strategol a chorfforaethol i gyflawni cydymffurfiaeth corff gyda'r safonau. Golygai hyn fod rhaid i'r Cyngor sefydlu diwylliant ble nad oes goddefgarwch i fethiannau o'r fath.
- 3.52 Ymddengys felly fod arwyddion uniaith Saesneg ac arwyddion sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn parhau i gael eu gosod gan wahanol adrannau'r Cyngor, a bod hynny'n digwydd wrth osod arwyddion parhaol ac arwyddion dros dro.
- 3.53 Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd, rwy'n casglu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gosod arwyddion heb sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn cael ei arddangos yn Gymraeg.
- 3.54 Rwy'n casglu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gosod arwyddion ble gosodwyd y testun Cymraeg o dan y testun Saesneg, a thrwy hynny beidio â gosod y testun Cymraeg mewn safle fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
- 3.55 Rwy'n casglu hefyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn arddangos arwyddion ble nad yw'r testun Cymraeg ar yr arwydd yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 61 ai peidio

- 3.56 Fy nyfarniad yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 61 ar y sail ei fod wedi gosod arwyddion nad oedd yn arddangos testun Gymraeg ar yr arwydd neu wedi gosod arwyddion ble roedd y testun Cymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 62 ai peidio

- 3.57 Fy nyfarniad yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio a safon 62. Sail fy nyfarniad yw bod y Cyngor wedi gosod arwyddion ble nad y testun Gymraeg sydd yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 63 ai peidio

3.58 Fy nyfarniad yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 63 ar y sail bod arwyddion y maent yn eu harddangos yn cynnwys testun Cymraeg nad yw'n gywir o ran ystyr a mynegiant.

Gweithredu pellach

3.59 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.

3.60 Yn achos fy nyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 61, 62 a 63, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

3.61 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Cam gorfodi 1:

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gymryd camau i:

- Sicrhau bod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion sy'n wedi eu gosod ers 30 Mawrth 2016, (gan gynnwys arwyddion dros dro) yn cael ei arddangos yn Gymraeg (unai ar yr un arwydd sy'n dangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân).
- Sicrhau nad yw'r testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thestun Saesneg os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddiwrnod cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 2

Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i wella ei drefniadau corfforaethol drwy:

- Creu canllawiau a gweithdrefnau clir i staff ar gyfer dylunio, creu ac awdurdodi arwyddion newydd neu arwyddion sydd wedi eu hadnewyddu
- Creu rhaglen o weithgareddau er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau staff o ofynion safonau 61, 62 a 63.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 3

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

- Ddatblygu cyfundrefn arolygu a gwirio'r holl arwyddion sydd wedi eu gosod ar ôl y diwrnod gosod er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg.
- Rhaid i'r Cyngor ddisodli arwyddion nad ydynt yn cydymffurfio o fewn 3 mis o'i darganfod.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 4

Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion.

Amserlen: 28 diwrnod yn dilyn dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 5

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau fod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion sydd wedi cael eu gosod ers diwrnod gosod safon 62 yn arddangos unrhyw destun Cymraeg mewn safle fel mai hwnnw s'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddiwrnod cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi 6

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam adolygu contractau ei Uned Priffyrdd a Chludiant gyda thrydydd parti sy'n gosod arwyddion ar ei ran, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys cyfeiriad priodol at yr angen i gydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud ag arddangos arwyddion.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddiwrnod cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 7

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam greu proses a chanllawiau, sydd i gael eu defnyddio gan ei staff, er mwyn sicrhau fod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir oran ystyr a mynegiant.

Cam gorfodi 8

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam cyflwyno adroddiad yr ymchwiliad yma i Bwyllgor craffu perthnasol y Cyngor.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi 9

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam darparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sydd yn bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei bod wedi cwblhau camau gorfodi 1-8.

Amserlen: 20 diwrnod gwaith yn dilyn gweithredu'r cam gorfodi sydd ei gael ei gyflawni olaf



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hysbysiad penderfynu

At: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyfeiriad: Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY
Rhif achos: CSG237
Dyddiad: 29 Mehefin 2018

Dyfarniad

Cynhaliais ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn dyfarnu a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Mae'r safonau a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

Safon 61

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i chi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Diwrnod gosod: 30 Mawrth 2016

Safon 62

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu'r un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Diwrnod gosod: 30 Mawrth 2016

Safon 63

Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Diwrnod gosod: 30 Mawrth 2016

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 61 ai peidio

Fy nyfarniad yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 61 ar y sail ei fod wedi gosod arwyddion nad oedd yn arddangos testun Gymraeg ar yr arwydd neu wedi gosod arwyddion ble roedd y testun Cymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 62 ai peidio

Fy nyfarniad yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio a safon 62. Sail fy nyfarniad yw bod y Cyngor wedi gosod arwyddion ble nad y testun Gymraeg sydd yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 63 ai peidio

Fy nyfarniad yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 63 ar y sail bod arwyddion y maent yn eu harddangos yn cynnwys testun Cymraeg nad yw'n gywir o ran ystyr a mynegiant.

Gweithredu pellach

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Cam gorfodi 1:

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam gymryd camau i:

- Sicrhau bod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion sy'n wedi eu gosod ers 30 Mawrth 2016, (gan gynnwys arwyddion dros dro) yn cael ei arddangos yn Gymraeg (unai ar yr un arwydd sy'n dangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân).
- Sicrhau nad yw'r testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thestun Saesneg os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddiwrnod cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 2

Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i wella ei drefniadau corfforaethol drwy:

- Greu canllawiau a gweithdrefnau clir i staff ar gyfer dylunio, creu ac awdurdodi arwyddion newydd neu arwyddion sydd wedi eu hadnewyddu
- Greu rhaglen o weithgareddau er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau staff o ofynion safonau 61, 62 a 63.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 3

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

- Ddatblygu cyfundrefn arolygu a gwirio'r holl arwyddion sydd wedi eu gosod ar ôl y diwrnod gosod er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg.
- Rhaid i'r Cyngor ddisodli arwyddion nad ydynt yn cydymffurfio o fewn 3 mis o'i darganfod.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 4

Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion.

Amserlen: 28 diwrnod yn dilyn dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 5

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau fod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion sydd wedi cael eu gosod ers diwrnod gosod safon 62 yn arddangos unrhyw destun Cymraeg mewn safle fel mai hwnnw s'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddiwrnod cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi 6

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam adolygu contractau ei Uned Priffyrdd a Chludiant gyda thrydydd parti sy'n gosod arwyddion ar ei ran, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys cyfeiriad priodol at yr angen i gydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud ag arddangos arwyddion.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddiwrnod cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 7

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam greu proses a chanllawiau, sydd i gael eu defnyddio gan ei staff, er mwyn sicrhau fod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir oran ystyr a mynegiant.

Cam gorfodi 8

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam cyflwyno adroddiad yr ymchwiliad yma i Bwyllgor craffu perthnasol y Cyngor.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi 9

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam darparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sydd yn bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei bod wedi cwblhau camau gorfodi 1-8.

Amserlen: 20 diwrnod gwaith yn dilyn gweithredu'r cam gorfodi sydd ei gael ei gyflawni olaf

Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fu methiant i gydymffurfio â safon, gall yr achwynydd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â safon, gall y person hwnnw apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Yn ogystal, pan fo'r Comisiynydd wedi penderfynu cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant yn unol ag adran 79 Mesur y Gymraeg, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ar y sail fod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yn y daflen amgaeedig, ac ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg.

Canlyniadau peidio â chydymffurfio â gofyniad yn yr hysbysiad penderfynu

Os yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o fewn yr hysbysiad penderfynu hwn i weithredu ymhellach, caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gydymffurfio.

Atodiad 1:**Crynodeb o dystiolaeth gan achwynwyr:**

Dyddiad derbyn tystiolaeth	Natur yr arwydd a'r gwyn dan sylw	Dyddiad tynnu sylw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o'r mater
15 Tachwedd 2016	Arwydd dros dro. Cymraeg yn ymddangos islaw'r Saesneg ar arwydd dros dro o amgylch coeden Nadolig yn nhref Wrecsam.	20 Ionawr 2017
5 Rhagfyr 2016	Arwydd dros dro. Arwyddion Saesneg yn unig yn ystod gwaith ffordd ar Ffordd Ddyfrllyd, Wrecsam.	21 Mehefin 2017
6 Rhagfyr 2016	Arwyddion parhaol. Arwyddion Saesneg yn unig ar ddrysau Marchnad y Bobl, Wrecsam.	21 Mehefin 2017
2 Ionawr 2017	Arwydd dros dro. Arwydd dros dro Saesneg yn unig ar beiriant talu ac arddangos am barcio.	Dyfarniad y Comisiynydd ar 15 Awst 2017
1 Mawrth 2017	Arwyddion dros dro. Arwyddion Saesneg yn unig yn hysbysebu'r cyhoedd o waith adnewyddu ar stondinau ym Marchnad y Bobl, Wrecsam.	15 Mawrth 2017
14 Mawrth 2017	Arwyddion parhaol. Arwydd Saesneg yn unig ar yr heol yn hysbysebu	Cwyn annilys

	cerddwyr i edrych i'r chwith/dde wrth groesi.	
16 Mawrth 2017	Arwydd parhaol. Arwyddion Saesneg yn unig. Arwydd electronig ar B5430 rhybuddio teithwyr bod goleuadau traffig.	Cwyn annilys
16 Mawrth 2017	Arwyddion parhaol. Arwyddion yn Amlogfa Pentrebychan.	Cwyn annilys
18 Mai 2017	Arwydd dros dro. Poster yn hysbysebu cyngerdd ble mae'r testun Saesneg uwchben y testun Gymraeg.	Terfynu ymchwiliad ar 9 Tachwedd 2017
19 Mai 2017	Arwydd parhaol. Gwallau iaith yn y testun Cymraeg, a'r testun Cymraeg wedi ei osod islaw'r testun Saesneg.	28 Awst 2017
26 Mehefin 2017	Arwyddion dros dro. Arwyddion yn rhybuddio cerddwyr o waith ffordd ym Mhentre Bychan, Wrecsam A483 yn Saesneg.	14 Awst 2017 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi datgan nad oeddynt yn gyfrifol am osod yr arwydd.
17 Hydref 2017	Arwydd dros dro. Arwydd wrth beiriant talu ac arddangos gyda'r testun Cymraeg islaw'r testun Saesneg.	26 Hydref 2017
31 Hydref 2017	Arwydd parhaol. Gwallau iaith ar arwydd ym Mharc Rhos Ddu.	16 Tachwedd 2017

	Enwau strydoedd yn Saesneg yn unig.	
2 Tachwedd 2017	Arwyddion dros dro. Arwyddion wrth gynnal gwaith ffordd ar A525. Arwyddion Saesneg yn unig.	4 Rhagfyr 2017